# Cod Ymarfer i Arholwyr Allanol: Graddau Ymchwil

Cod Ymarfer 05: 2023 Fersiwn 1.1
Daw i rym: 1 Rhagfyr 2023

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

---

| Dyddiad | Yn disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 1 Rhagfyr 2023 | 2023 Fersiwn 1 | Mân newid i ddirprwyo awdurdod i enwebai. Newidiadau i strwythurau pwyllgorau. |
| 1 Ebrill 2023 | 2022 Fersiwn 1 | Rhoi mewnol yn lle allanol yn Eitem 39 |
| 1 Hydref 2022 | 2018 Fersiwn 01.1 | Mân newid i adlewyrchu newidiadau i strwythur y pwyllgorau a’r ailstrwythuro. |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd gan | Dyddiad Cymeradwyo | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Uned Gwella Ansawdd | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. | 3 Tachwedd 2023. | Bob tair blynedd. |

Cofiwch: Dan amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i ysgolion, penaethiaid ysgolion, swyddogion ysgolion neu bwyllgorau ysgolion yn y cod ymarfer hwn gael eu mabwysiadu gan y coleg, pennaeth y coleg, swyddogion y coleg neu bwyllgorau’r coleg yn y drefn honno, fel y bo’n briodol.

# Cod Ymarfer i Arholwyr Allanol: Graddau Ymchwil

Yn y ddogfen hon mae'r term 'Arholwyr Allanol' yn golygu Arholwyr Allanol graddau ymchwil gan gynnwys elfen y traethawd ymchwil y Doethuriaethau Proffesiynol (e.e. cynlluniau EdD and DClinPsy).

## Cyffredinol

1. Mae'r holl Arholwyr Allanol yn atebol yn y pen draw i Senedd Prifysgol Bangor.
2. Yn system addysg uwch y Deyrnas Unedig, mae sefydliadau'n gyfrifol am ansawdd yr addysg a ddarparant ac am safonau academaidd y cymwysterau a gynigiant. Mae arholi allanol yn un o'r prif ddulliau o gynnal safonau cyffelyb ar draws y wlad o fewn sefydliadau addysg uwch annibynnol.
3. Bydd y Brifysgol, trwy'r Uned Gwella Ansawdd, yn penodi un neu fwy o Arholwyr Allanol i gyflawni'r swyddogaeth(au) a ddiffinnir yn y Cod Ymarfer hwn i'r holl ddarpariaeth sy'n arwain at radd ymchwil gan y Brifysgol. Mae hynny'n cynnwys darpariaeth gydweithredol.
4. Dylai'r swyddogaeth arholi allanol gynorthwyo Prifysgol Bangor i sicrhau:
   - ei bod yn cynnal y safonau academaidd a bennwyd ar gyfer ei chymwysterau'n unol â'r fframweithiau cymwysterau addysg uwch a disgrifiadau cymwysterau Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) y DU ar gyfer graddau doethur a meistr trwy ymchwil;
   - bod y drefn asesu'n mesur llwyddiant myfyrwyr yn briodol, a'i bod yn drylwyr, ac yn cael ei chynnal yn deg ac yn gyson.

## Meini Prawf Penodi

Rhoddir meini prawf penodi Arholwyr Mewnol yn Atodiad 1.

5. Cymhwystra i weithio yn y Deyrnas Unedig O dan gyfyngiadau'r Gyfraith ar Atal Gweithio Anghyfreithlon, rhaid i enwebeion fod yn gymwys i weithio yn y DU os yw'r arholwr allanol yn bwriadu cymryd rhan yn y *viva voce* yn y DU. Rhaid i rai nad ydynt yn ddinasyddion o'r DU sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r DU beidio â theithio i'r DU, a rhaid cynnal y *viva voce* trwy fideo-gynadledda. Cysylltwch â'r Rheolwr Sicrhau Ansawdd am ragor o wybodaeth, os oes angen.

   Sylwer y bydd dogfennau'n cael eu gwirio, ac eithrio mewn achosion lle mae'r sawl a enwebwyd wedi ei leoli y tu allan i'r DU a lle cynhelir y viva voce trwy fideo-gynadledda. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 2.
6. Dylai Ysgolion ac Adrannau Academaidd eraill gymryd gofal i sicrhau nad ydynt yn gorddefnyddio Arholwr penodol.

7. Dylai fod gan enwebeion ddigon o arbenigedd, profiad a bod mewn swydd ddigon uchel i fynnu awdurdod yn y maes a sicrhau safonau cymaradwy. Mae'r tri maen prawf hyn yn berthnasol i'r **holl** raddau ymchwil, gan gynnwys meysydd addysg broffesiynol (e.e. nyrsio, hyfforddiant cychwynnol athrawon, gwaith cymdeithasol).
8. Fel rheol, bydd enwebai yn meddu ar statws Uwch Ddarlithydd neu uwch na hynny, neu gyfwerth. Os gall Ysgol gynnig tystiolaeth gadarn bod eu henwebai yn meddu ar ddigon o arbenigedd, profiad a'i fod/a'i bod mewn swydd ddigon uchel, caiff y cyfryw feini prawf flaenoriaeth dros statws swydd ffurfiol.
9. Gellir defnyddio arholwyr o'r tu allan i system y Brifysgol lle bo angen arbenigedd proffesiynol. Yn yr holl achosion hynny, dylai'r Arholwr Mewnol fod yn aelod academaidd profiadol o staff â statws uwch (e.e. Athro, Darllenydd) a chanddo/chanddi brofiad sylweddol o safonau graddau ymchwil yn y DU.
10. Mae'n rhaid i arholwyr allanol fodloni unrhyw feini prawf perthnasol a bennir gan gyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddio (e.e. Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal). Yn yr achosion hynny penodir yr Arholwyr Allanol yn unol â'r hyn a ddiffinnir yn y Cod Ymarfer hwn. Yr Uned Gwella Ansawdd fydd yn gyfrifol am gysylltu â'r Corff Proffesiynol, neu gorff cyfatebol, fel bo angen.
11. Ni ellir gwahodd cyn-aelodau'r staff i fod yn Arholwyr Allanol nes bydd o leiaf bum mlynedd wedi mynd heibio ers iddynt ymadael, neu nes bydd digon o amser wedi mynd heibio i fyfyrwyr a oruchwylid gan yr aelod hwnnw fynd trwy'r system, p'un bynnag fo hwyaf.
12. Gellir penodi enwebeion sydd wedi ymddeol hyd at 5 mlynedd ar ôl eu hymddeoliad.
13. Wrth enwebu Arholwr Allanol o'r tu allan i'r DU, mae angen eglurhad manwl a curriculum vitae gan yr ysgol sy'n enwebu ar adeg enwebu. Yn yr holl achosion hynny, o ddefnyddio arholwr o'r tu allan i'r DU, dylai'r Arholwr Mewnol fod yn aelod academaidd profiadol o staff â statws uwch (e.e. Athro, Darllenydd) a chanddo/chanddi brofiad sylweddol o safonau graddau ymchwil yn y DU.
14. Er mwyn gwarchod rhag gwrthdaro buddiannau, ni ellir penodi Arholwr Allanol sydd â chysylltiad sylweddol â'r Brifysgol, yr Ysgol, y goruchwyliwr neu'r ymgeisydd. Wrth enwebu Arholwr Allanol dylid manylu ynghylch natur unrhyw gysylltiad o'r fath. Bydd yr holl enwebiadau lle bu cyfranogiad yn cael eu harchwilio gan y Pennaeth Gwella Ansawdd (neu enwebai). Ar y cyfan dehonglir 'cyfraniad sylweddol' fel 'yn debygol o effeithio'n andwyol ar farn annibynnol a theg yr Arholwr Allanol'.
15. Os yw'r ymgeisydd hefyd yn aelod o staff y Brifysgol, dylid penodi ail Arholwr Allanol yn lle Arholwr Mewnol. Dylai o leiaf un feddu ar brofiad sylweddol o weithio mewn addysg uwch yn y DU.

### Y Drefn Enwebu

16. Pennaeth yr Ysgol neu'r sawl a enwebir ganddo/ganddi ddylai enwebu Arholwyr Allanol.
17. Dylid cyflwyno ffurflenni enwebu'r Arholwyr i'r Uned Gwella Ansawdd **o leiaf 1 mis** cyn cyflwyno'r traethawd ymchwil.
18. Ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan y Pennaeth Gwella Ansawdd (neu enwebai), anfonir llythyr o wahoddiad oddi wrth yr Uned Gwella Ansawdd. Bydd yr Uned Gwella Ansawdd yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig o'r penodiad i'r Ysgolion unwaith y bydd y broses enwebu wedi ei chwblhau.

19. Mewn achosion lle nad yw Arholwr Allanol a enwebir yn bodloni’r holl feini prawf, bydd gofyn i’r Ysgol sy’n enwebu roi eglurhad manwl wrth gyflwyno’r enwebiad. Dylid hefyd gynnwys curriculum vitae'r sawl a enwebir.

## Canlyniadau

20. Mewn achosion lle gwrthodir enwebiad Arholwr Allanol am iddo/ iddi fethu ag ateb y meini prawf uchod, gofynnir am enwebiad amgen. Gall ysgolion apelio at y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) os gwrthodir Arholwr Allanol.
21. Ni ellir enwebu mewn modd ôl-weithredol. Rhaid i bob enwebiad gael ei gymeradwyo gan y Pennaeth Gwella Ansawdd (neu enwebai) cyn gwneud penodiad ffurfiol.
22. Ni chaiff Ysgol fynd rhagddi i arholi myfyriwr ymchwil hyd nes y bydd yr Uned Gwella Ansawdd yn cadarnhau’r penodiad yn ffurfiol.

## Cyfrifoldebau

23. Caiff ffioedd Arholwyr Allanol eu gosod, eu hadolygu a’u diwygio gan y Grŵp Cyflawni Sicrhau Ansawdd y Cwricwlwm, ar argymhelliad Pennaeth yr Uned Gwella Ansawdd.
24. Y Brifysgol sy’n gyfrifol, trwy’r Uned Gwella Ansawdd, am sicrhau bod pob Arholwr Allanol yn cael copïau o Reoliadau perthnasol y Brifysgol ynghyd â ffurflen hawlio costau.
25. Penaethiaid Ysgolion sy’n gyfrifol am sicrhau bod Arholwyr Allanol yn cael copïau o’r thesis, ‘Nodiadau Arholwyr Allanol a Mewnol y Brifysgol’ a'r ‘Ffurflenni Canlyniadau ac Adrodd’ priodol.
26. Penaethiaid Ysgolion sy’n gyfrifol am hysbysu myfyrwyr ar gyrsiau Meistr os oes unrhyw oedi yn y broses arholi y tu hwnt i dri mis. Os na all Arholwyr Allanol arholi o fewn 3 mis wedi dyddiad cyflwyno’r traethawd ymchwil, fel rheol rhaid penodi arholwyr eraill at y diben hwnnw. Rhaid i’r Ysgolion hysbysu'r Uned Gwella Ansawdd am unrhyw oedi o'r fath.

## Camymddwyn Academaidd

27. Os bydd Arholwr Allanol, yn ystod y drefn arholi neu wedyn, o’r farn fod ymgeisydd wedi ymarfer yn annheg yn yr arholi, bydd yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Bwrdd Arholi dan sylw ynglŷn â’r amgylchiadau hynny.

## Adroddiadau

28. Yn unol â Chod Ansawdd Asiantaeth Sicrhau Ansawdd y Deyrnas Unedig, gofynnir i’r Arholwyr gyflwyno adroddiadau ysgrifenedig annibynnol ar wahân cyn yr arholiad llafar ac adroddiad ar y cyd wedi hynny. Gofynnir hefyd i Arholwyr Allanol adrodd ynghylch y broses arholi.
29. Bydd adroddiadau’r Arholwyr Mewnol ac Allanol ar gael i'r ymgeisydd ar ôl yr arholiad llafar.
30. Dychwelir adroddiadau arholwyr allanol i Weinyddiaeth Myfyrwyr. Dychwelir ffurflenni hawlio treuliau i'r Uned Gwella Ansawdd. Mae’r Arholwyr yn derbyn eu ffi ar ôl i’r ffurflen ddod i law.

31. Bydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil Ôl-raddedigyn ystyried adroddiad cryno ar y materion a godir gan yr Arholwyr Allanol. Bydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil Ôl-raddedigyn ymgynghori â’r Ysgol berthnasol. Bydd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gamau a nodir ynglŷn â phwyntiau o bwys a godir gan yr Arholwyr Allanol yn cael eu gweithredu.

32. Mae gan Arolwyr Allanol yr hawl i godi unrhyw fater o bryder difrifol gyda’r Is-Ganghellor, trwy gyfrwng adroddiad ysgrifenedig cyfrinachol ar wahân os bydd angen. Bydd y Brifysgol yn darparu ymateb ystyriol ac amserol i unrhyw adroddiad cyfrinachol a gyflwynir, gan nodi unrhyw gamau y bydd yn eu cymryd o ganlyniad.

## Arholwyr Cyflafareddu

33. Gofynnir i’r Arholwyr Allanol nodi, pan fydd penderfyniad arholwr bod ymgeisydd yn methu’n arwain at anghydfod rhwng yr Arholwr Allanol a'r Arholwr Mewnol, bod gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) y grym ar gais Cadeirydd y Bwrdd Arholi i benodi Arholwr Allanol arall y gofynnir iddo/iddo gyflafareddu. Gall y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) gymryd i ystyriaeth unrhyw adroddiadau ysgrifenedig a gyflwynir gan aelodau’r Bwrdd Arholi. Wrth ddewis ail Arholwr Allanol, gall y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) gymryd i ystyriaeth enwebiad (os oes enwebiad) y Bwrdd Arholi ar gyfer ail Arholwr Allanol ond nid yw'n rhwymedig i'r enwebiad hwnnw. Yr ail Arholwr Allanol yn ôl ei ddoethineb fydd yn penderfynu a ddylid ailgynnull y Bwrdd Arholi ai peidio a bydd ei benderfyniad ef / ei phenderfyniad hi ar y mater yn derfynol.

## Darpariaeth Gydweithredol

34. Fel rheol bydd Prifysgol Bangor yn penodi Arholwyr Allanol i ymgeiswyr a ymrestrodd ar gyfer cymhwyster ar y cyd neu gymhwyster deuol yn unol â'r trefniadau a nodir yn y Cod Ymarfer hwn. Mewn achosion o'r fath ymgynghorir â'r awdurdod perthnasol yn y sefydliad partner cyn penodi.

35. Os yw'n fwy priodol i'r arholwr allanol gael ei benodi gan y sefydliad partner, am resymau gweinyddol, yna rhaid i'r brifysgol gymeradwyo'r arholwr allanol cyn ei benodi.

36. Rhaid i arholwr mewnol o Brifysgol Bangor gymryd rhan hefyd yn y broses arholi.

37. Rhaid i'r arholwyr lenwi ffurflenni adrodd Prifysgol Bangor er mwyn i'r brifysgol ddyfarnu cymhwyster.

**Atodiad 1 Meini Prawf Penodi Arholwyr Mewnol**

38. Dylai'r Arholwr Mewnol fod mewn swydd ddigon uchel a chanddo/ganddi ddigon o brofiad arholi i sicrhau safonau'r Deyrnas Unedig, ac nid yn eu cyfnod prawf.

39. Lle bynnag y bo modd, rhaid i'r Arholwr Mewnol fod yn ddigon annibynnol i wneud penderfyniad mor wrthrychol â phosibl ynglŷn ag arholi'r traethawd ymchwil.

40. os nad yw'n bosib cyflawni'r naill na'r llall o'r ddau faen prawf, disgwylir i'r Ysgol recriwtio Arholwr Mewnol priodol o Ysgol arall. Mewn achosion eithriadol, gellir penodi ail Arholwr Mewnol. Mewn achosion o'r fath bydd yr Uned Gwella Ansawdd yn codi ar yr Ysgol am hanner cost gyfun y ddau Arholwr Allanol.

**Atodiad 2 Cynllun Gwirio Dogfennau**

